

COVID-19 Update: 28th April

In tonight's COVID-19 round-up of the day from Cardiff Council: the first patients arrive at the Dragon's Heart Hospital; the 'Diff Diaries project, COVID-19 through the eyes of Cardiff's children and young people; a huge Together for Cardiff food operation; and the COVID-19 Symptom Tracker app.

Dragon's Heart Hospital

Patients have started to arrive at Cardiff's newest hospital, the Dragon's Heart at the Principality Stadium.

Teams from Cardiff Council are on hand to help, including our Pink Army – the First Point of Contact Hospital Team, within Independent Living Services.

The Pink Army are a team of contact officers, who work in partnership with Health, located in University Hospital Wales – and now the Dragon's Heart too. They work with a wide range of clinicians on the wards, as well as with patients and their families.

Some of our Hospital Social Work Team are also now working at the Dragon's Heart, providing advice, guidance and support on the frontline.

A range of Council teams were involved in construction and preparations in the run up to the Dragon's Heart official opening.

Teams carried out a deep clean of the NCP car park in Westgate Street to ensure that contractors working at the stadium were able to park safely.

NHS staff are using the car park at Sophia Gardens with shuttle buses provided by Cardiff Bus so that staff can get to and from the stadium.

A significant amount of work was also facilitated by the council to ensure that the hospital can operate efficiently and has an adequate supply of oxygen.

Council staff have been working on the safe installation of an oxygen tank located on the stadium Plaza, to supply the new hospital.

The 'Diff Diaries project: COVID-19 through the eyes of Cardiff's children and young people

A project for children and young people in Cardiff to share their experiences of COVID-19 through weekly diary entries, has been launched.

'The 'Diff Diaries' is providing children and young people the opportunity to document their activity, thoughts and feelings during the global pandemic by submitting video recordings, photo collages or written diary entries.

With schools closed, all events large and small across the globe cancelled and children and young people everywhere having to stay at home, entries may show how children and young people are spending their time, perhaps learning new skills, being home-schooled or even sharing tips for children of the future.

Supported by Museum of Cardiff, Screen Alliance Wales and University of South Wales, the project has been launched by Cardiff Commitment and supports Cardiff's ambition to become a United Nations Child Friendly City.

You can see the full story here:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23718.html>

Volunteers and staff come Together for Cardiff in huge food operation

Council staff and volunteers who want to support residents across the city during the COVID-19 crisis have been working together tirelessly to help people in need.

Volunteers from the Together for Cardiff scheme are supporting Council services to ensure that vulnerable people are able to get the provisions and support they need at this difficult time.

Almost 1,200 volunteers have registered to help and many of them are now assisting staff from the Hubs and Libraries Service and Into Work service at our Dominion's Way facility in picking packing and delivering food parcels to residents across the city.

Together for Cardiff is using the good will of people across our city to help others at these challenging times.

Read more here:

<https://www.volunteercardiff.co.uk/volunteering/together-for-cardiff/>

Help the NHS by downloading the COVID-19 Symptom Tracker App

We're supporting the Welsh Government and NHS Wales in promoting the COVID-19 Symptom Tracker app, developed by Kings College London and healthcare science company ZOE.

They're asking people to download the app and log daily symptoms to help them build a clearer picture of how the virus is affecting people. The app is for everyone, not just those who are experiencing symptoms.

The data from the COVID-19 Symptom Tracker app will be shared daily with the Welsh Government and NHS Wales. It will give early indications of where future hospital admissions are going to be.

Over 38,000 people in Wales have already signed up to the app, but Welsh government and NHS Wales need as many as possible to make the data most useful.

You too can help them understand this virus better by downloading the app, and logging how you're feeling daily.

Join the tens of thousands in Wales already using the COVID-19 Symptom Tracker by downloading it from the Apple App Store or get it from Google Play.

Choose the app developed by Zoe Global Limited - look out for this logo:



Diweddariad COVID-19: 28 Ebrill

Yn y diweddariad COVID-19 a ddarparwyd gan Gyngor Caerdydd heno: mae'r cleifion cyntaf wedi cyrraedd Ysbyty Calon y Ddraig; project Dyddiaduron y 'Diff, COVID-19 drwy lygaid plant a phobl ifanc Caerdydd; ymgyrch fwyd Gyda'n Gilydd i Gaerdydd; ac app Olrhain Symptomau COVID-19.

Ysbyty Calon y Ddraig

Mae cleifion wedi dechrau cyrraedd ysbyty diweddaraf Caerdydd, Calon y Ddraig yn Stadiwm Principality.

Mae timau o Gyngor Caerdydd wrth law i helpu, gan gynnwys ein Byddin Binc – Tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf yr Ysbyty, o fewn Gwasanaethau Byw'n Annibynnol.

Tîm o swyddogion cyswllt yw'r Fyddin Binc, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd, a leolir yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac sydd bellach yn Ysbyty Calon y Ddraig hefyd. Maen nhw'n gweithio gydag ystod eang o glinigwyr ar y wardiau, yn ogystal â chleifion a'u teuluoedd.

Mae rhai o'n Tîm Gwaith Cymdeithasol yr Ysbyty hefyd yn gweithio yng Nghalon y Ddraig, gan roi cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar y rheng flaen.

Roedd amryw o dimau'r Cyngor hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith adeiladu a'r paratodau yn y cyfnod cyn agoriad swyddogol Calon y Ddraig.

Cyflawnodd y timau waith glanhau dwfn ym maes parcio NCP yn Heol y Porth er mwyn sicrhau bod contractwyr a oedd yn gweithio yn y stadiwm yn gallu parcio'n ddiogel.

Mae staff y GIG yn defnyddio maes parcio Gerddi Sophia gyda bysus gwennol gan Bws Caerdydd fel y gall staff fynd a dod o'r stadiwm.

Roedd gwaith sylweddol hefyd yn cael ei hwyluso gan y cyngor i sicrhau y gall yr ysbyty weithredu yn effeithlon a bod cyflenwad ocsigen digonol.

Mae staff y cyngor wedi bod yn gweithio ar osod tanc ocsigen yn ddiogel, a leolir ar Blas y Stadiwm, lle y bydd yn cyflenwi'r ysbyty newydd.

Project Dyddiaduron y 'Diff'; COVID-19 drwy lygaid plant a phobl ifanc Caerdydd

Lansiwyd project ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd i rannu eu profiadau o COVID-19 drwy gofnodion wythnosol mewn dyddiaduron.

Mae Dyddiaduron y 'Diff' yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc gofnodi eu gweithgareddau, meddyliau a theimladau yn ystod y pandemig byd-eang drwy gyflwyno cofnod fideo, collage lluniau neu straeon dyddiadur ysgrifenedig.

Gyda'r ysgolion ar gau, a'r holl ddigwyddiadau mawr a bach wedi eu canslo a phlant a phobl ifanc ymhobman yn gorfod aros gartref, gall y dyddiaduron ddangos sut mae plant a phobl ifanc yn treulio eu hamser, yn dysgu sgiliau newydd efallai, cael eu haddysgu gartref neu hyd yn oed rhannu syniadau â phlant y dyfodol.

Wedi'i gefnogi gan Amgueddfa Caerdydd, Screen Alliance Wales a Phrifysgol De Cymru, cafodd y project ei lansio gan Ymrwymiad Caerdydd ac mae'n cefnogi uchelgais Caerdydd i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant y Cenhedloedd Unedig.

Gwirfoddolwyr a staff yn gweithio Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd mewn ymgyrch fwyd enfawr

Mae staff y cyngor a gwirfoddolwyr sydd eisiau cefnogi trigolion ar draws y ddinas yn ystod yr argyfwng COVID-19 wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiflino i helpu pobl mewn angen.

Mae gwirfoddolwyr o'r cynllun Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yn cefnogi gwasanaethau'r cyngor i sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn gallu cael yr hanfodion a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn ystod yr adeg anodd hon.

Mae bron i 1,200 o wirfoddolwyr wedi cofrestru i helpu ac mae llawer ohonyn nhw nawr yn helpu staff y Gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd a'r Gwasanaeth i Mewn i Waith yn ein cyfleuster ar Dominion's Way i gasglu, pecynnu a dosbarthu parseli bwyd i drigolion ledled y ddinas.

Mae Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yn defnyddio ewyllys da pobl ar draws ein dinas i helpu eraill ar yr adegau heriol hyn.

Darllenwch fwy yma:

<https://www.volunteercardiff.co.uk/gwirfoddoli/gydan-gilydd-dros-gaerdydd/?lang=cy>

Helpwch y GIG trwy lawrlwytho App Orlhain Symptomau COVID-19

Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i hyrwyddo'r ap Orlhain Symptomau COVID-19, a ddatblygwyd gan Goleg King's, Llundain a'r cwmni gwyddoniaeth gofal iechyd ZOE.

Maen nhw'n gofyn i bobl lawrlwytho'r ap a chofnodi symptomau dyddiol i'w helpu i greu darlun cliriach o sut mae'r feirws yn effeithio ar bobl. Mae'r ap ar gyfer pawb, nid yn unig y rhai sydd â symptomau.

Bydd y data o'r ap Orlhain Symptomau COVID-19 yn cael ei rannu bob dydd gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Bydd yn rhoi awgrym cynnar o ble fydd pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn y dyfodol.

Mae mwy na 38,000 o bobl yng Nghymru eisoes wedi cofrestru gyda'r ap, ond mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru angen cynifer â phosibl i wneud hynny i sicrhau bod y data'n ddefnyddiol.

Gallwch chi hefyd eu helpu i ddeall y feirws hwn yn well drwy lawrlwytho'r ap, a chofnodi sut rydych chi'n teimlo bob dydd.

Ymunwch â'r degau o filoedd yng Nghymru sydd eisoes yn defnyddio'r ap Orlhain Symptomau COVID-19 drwy ei lawrlwytho o'r Apple App Store neu o Google Play.

Dewiswch yr ap a ddatblygwyd gan Zoe Global Limited - chwiliwch am y logo hwn:

